

# Drama tra rhagorol

*“Wele, er lles y bu’r holl chwerwder hwn i mi.” (adn. 17)*

## Beth am ddarllen Eseia 38:9–22 ac yna myfyrio

Rydw i wedi treulio cyfran dda o’r hoes yn gwranddo ar straeon pobl, ac wedi darganfod bod pobl yn gallu adrodd eu straeon mewn nifer o wahanol ffyrdd. Mae rhai’n ei hadrodd fel petai hi’n gomedi – gan wneud hwyl amdani am y byddai delio â’r stori’n ddifrifol yn ormod iddyn nhw. Mae eraill yn ei hadrodd fel trasiedi – fedran nhw ddim gweld dim pwrpas yn yr hyn sydd wedi digwydd iddyn nhw. Yna mae ’na rai eraill sydd yn ei hadrodd fel eironi – gan sôn yn wawdlyd am addasrwydd pethau. Ond rydw i wedi cyfarfod â rhai – dim ond rhai – sydd yn sôn am eu bywydau fel drama tra rhagorol. Galwant i gof y pethau sydd wedi digwydd iddyn nhw gyda synnwyr eglur bod yna Dduw cariadus wedi caniatáu iddyn nhw fynd trwy’r profiadau hyn i bwrpas.

Pryd bynnag y byddaf yn gwranddo ar Joni Eareckson Tada, er enghraifft, yn dweud ei hanes, dydw i ddim yn clywed dim sy’n agos at fod yn gomedi, yn drasiedi nac yn eironi. Mae ’na rywbeth buddugoliaethus am ei stori hi. Sonia am y digwyddiadau a arweiniodd at y ffaith ei bod wedi ei pharlysu yn ei phedwar aelod, nid fel trasiedi, ond fel drama tra rhagorol. Does dim ond rhaid i rywun wrando arni er mwyn bod yn ymwybodol o ras Duw yn tywynnu o’i phersonoliaeth. Gall hawlio sylw ac edmygedd miliynau oherwydd ei bod yn siarad o ganol ei dioddefaint – dioddefaint sydd wedi ei waredu. Mae hi’n cyfaddef, wrth reswm, bod yna adeg o gwyno wedi bod yn ei bywyd pan oedd hi’n codi dwrn yn wyneb Duw, ond mae hi wedi gweithio drwy’r teimladau hynny nawr ac wedi dod i sylweddoli bod gan Dduw, o fod wedi caniatáu i’w damwain ddigwydd, bwrpas ar gyfer ei bywyd sydd wedi cyffwrdd â bywydau miliynau o bobl.

Sut fyddech chi’n mynd ati i adrodd stori eich bywyd pe bai rhywun yn gofyn ichi, tybed? Fel comedi, trasiedi, eironi, neu ddrama tra rhagorol?

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Amos 7:10–15;

1 Tim. 1:12–16

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae Amos yn disgrifio trywydd dramatig ei fywyd?
2. I ba bwrpas mae Paul yn credu bod trugaredd wedi ei ddangos tuag ato?

## Gweddï

O Dad, rydw i mewn man caled. Sut fyddwn i’n mynd ati i adrodd fy stori? Fel comedi, trasiedi, eironi, neu ddrama ddwyfol? Helpa fi i feddwl am hyn heddiw a dod i benderfyniad. Yn enw Crist rwy’n gofyn hyn. Amen.